*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*
***RHONDDA CYNON TAF***
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**Bydd cyfarfod hybrid y CABINET yn cael ei gynnal ar'**
**Dydd Llun, 7fed Tachwedd, 2022 am 2.00 pm**

**Dolen gyswllt: Hannah Williams – Uned Busnes y Cyngor**
**(Rhif ffôn. 07385401954)**

**Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn canol Dydd Iau, 3 Tachwedd 2022. Rhaid iddyn nhw hefyd gadarnhau ai yn y Gymraeg neu yn y Saesneg y byddan nhw'n annerch.**

**Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, anfonwch e-bost i UnedBusnesGweithredolaRheoleiddiol@rctcbc.gov.uk**

Bwriedir i'r cyfarfod yma gael ei weddarlledu'n fyw, mae rhagor o fanylion am hyn yma

## MATERION I'W TRAFOD

### 1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau yn unol â'r Cod Ymddygiad.

**Nodwch:**

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

### 2. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2022 yn rhai cywir.

**(Tudalennau 5 - 12)**

**3.** **RHAGLEN YSGOLION YR 21AIN GANRIF: LLETY ANGHENION SYLFAENOL - YSTAFELLOEDD DOSBARTH YCHWANEGOL YN YSGOL GYFUN Y PANT**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant sy'n rhoi diweddariad i'r Cabinet mewn perthynas â'r ddarpariaeth ystafelloedd addysgu ychwanegol yn Ysgol Gyfun Y Pant, yn dilyn yr adroddiad a gafodd ei gyflwyno i'r Cabinet ar 13 Rhagfyr 2021, a oedd yn tynnu sylw at y pwysau cynyddol o ran niferoedd disgyblion yn ne'r Fwrdeistref Sirol.

**(Tudalennau 13 - 22)**

**4.** **SYLFAEN TRETH Y CYNGOR 2023-2024**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol, sy'n gosod yn ffurfiol Sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24.

**(Tudalennau 23 - 28)**

**<u>ADRODDIAD ER GWYBODAETH</u>**

**5.** **CYNLLUN DIRPRWYO'R ARWEINYDD - 3A**

Derbyn diweddariad ynghylch Cynllun Dirprwyo'r Arweinydd.

**6.** **MATERION BRYS**

Trafod unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.

**<u>Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu</u>**

**Cylchrediad:-**

**Y Cynghorwyr:** Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)
Y Cynghorydd M Webber (Is-gadeirydd)
Y Cynghorydd G Caple
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd C Leyshon
Y Cynghorydd M Norris
Y Cynghorydd B Harris

**Swyddogion:** Chris Bradshaw, Prif Weithredwr
Barrie Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Gaynor Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Louise Davies, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned
Richard Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Simon Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Paul Griffiths, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Derek James, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Ffyniant a Datblygu
Paul Mee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
David Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor
Andy Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Neil Elliott, Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Oedolion